

SL(5)581 – Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Dyddiad Cyhoeddi'r Gofrestr Etholiadol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn i'w gwneud gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 13(1)(a) a 201(1) a (3) o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("Deddf 1983"). Mae'r Rheoliadau'n pennu dyddiad diwygiedig o 1 Chwefror 2021 ar gyfer diwedd y cyfnod pan fydd yn rhaid cyhoeddi fersiynau diwygiedig o gofrestrau etholiadol etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardaloedd llywodraeth leol sirol neu fwrdeistref sirol yng Nghymru, a hynny'n unol ag adran 13(1)(a) o Ddeddf 1983. Y dyddiad cau presennol yw 1 Rhagfyr 2020.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi, yn adran 1 o Ran 1, y bydd y Rheoliadau'n "rhoi dau fis ychwanegol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gwblhau canfasiad blynyddol 2020 a chyhoeddi eu cofrestr etholiadol ddiwygiedig er mwyn ystyried effaith y pandemig COVID-19 ar awdurdodau lleol".

Gweithdrefn

Cadarnhaol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.

Nodwn fod y dyddiad cau diwygiedig ar gyfer cyhoeddi cofrestrau etholwyr llywodraeth leol oddeutu tri mis cyn etholiad nesaf y Senedd nesaf fel y mae wedi'i drefnu (ar 6 Mai 2021). Yn unol ag adran 12(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rhaid i berson fod wedi'i gofrestru ar gofrestr berthnasol etholwyr llywodraeth leol er mwyn bod â hawl i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd.

Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
23 Gorffennaf 2020

